# Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu (Cymru) 2024

## fersiwn 2

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru,
LIC24-35

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ... 3
**2. Dosbarthau cofrestru** ... 5
Rôl yr Arolygydd Cofrestredig Adeiladu ... 5
Symud drwy ddosbarthau a rhyngddynt ... 6
Goruchwylio ... 7
Dosbarth 1: Arolygydd Adeiladu o dan Hyfforddiant ... 7
Dosbarth 2: Arolygydd Adeiladu ... 9
Dosbarth 3: Arolygydd Adeiladu ... 11
Dosbarth 4: Arolygydd Adeiladu (Rheolwr Technegol) ... 14
**3. Trosolwg o'r Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu** ... 18
**4. Lefelau cymhwysedd** ... 20
**5. Fframwaith meysydd pwnc cymhwysedd y Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu** ... 21
Y gyfraith ... 21
Technoleg ... 23
Gwasanaethau adeiladau ... 26
Swyddogaethau a gweithgareddau ... 28
Asesu cynlluniau a gorfodi ... 31
Arolygiadau a gorfodi ... 33
Sgiliau rheoli a sgiliau craidd ... 36
Rheoli diogelwch ... 39
Moeseg ... 41
**6. Tabl o ofynion cymhwysedd** ... 44

# 1. Cyflwyniad

1.1 Yn sgil tân Tŵr Grenfell, mae diwygiadau newydd i ddiogelwch adeiladau wedi cael eu cyflwyno.

1.2 Fel rhan o'r diwygiadau hyn, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod rheoleiddio ("*regulatory authority*") i Gymru bellach o dan Ran 2A o Ddeddf Adeiladu 1984.

1.3 Bydd rhaid i weithwyr proffesiynol rheolaeth adeiladu a sefydliadau rheolaeth adeiladu yn y sector preifat gofrestru â'r awdurdod rheoleiddio (neu ei ddirprwy) er mwyn ymgymryd â gwaith rheolaeth adeiladu yng Nghymru. Agorodd y cyfnod cofrestru ym mis Ionawr 2024.

1.4 Yn unol ag adrannau 58C, 58D a 58F o Ddeddf Adeiladu 1984 ddiwygiedig, bydd yr awdurdod rheoleiddio yn gwneud y canlynol:

a. sefydlu a chynnal cofrestr o arolygwyr adeiladu (Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu)

b. darparu ar gyfer wahanol ddosbarthau o Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu (er enghraifft, yn unol â chymwysterau neu brofiad)

c. cofrestru unigolyn fel arolygydd adeiladu, neu arolygydd adeiladu o ddosbarth penodol, os yw'n fodlon bod yr unigolyn hwnnw'n bodloni'r meini prawf a bennir gennym

d. llunio a chyhoeddi Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu sy'n nodi safonau'r ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a ddisgwylir ganddynt

1.5 Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu ("y Fframwaith") yn darparu fframwaith clir, strwythuredig er mwyn dangos cymhwysedd ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu yn ei gyfanrwydd. Mae cymhwysedd yn adlewyrchu'r sgiliau, yr wybodaeth, y profiad a'r ymddygiadau angenrheidiol i unigolion sy'n cyflawni eu rôl fel Arolygydd Cofrestredig Adeiladu.

1.6 Nid yw'r Fframwaith yn holl gynhwysfawr, a dylai Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu arfer eu barn broffesiynol wrth benderfynu ar eu cymhwysedd eu hunain. Rhaid i Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu (Cymru) ("y Cod") i beidio ag ymgymryd â gwaith oni bai bod ganddynt y cymhwysedd perthnasol i'w wneud ac i gynnal eu cymhwysedd proffesiynol. Mae Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu yn cyflawni trosedd os ydynt yn gweithio y tu allan i gwmpas eu cofrestriad.

1.7 Mae'r Fframwaith a'r canllawiau ategol yn ailadroddol a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

1.8 Pan gyfeirir at unrhyw un o'r dogfennau canlynol, cyfeiriwch at y fersiwn ddiweddaraf sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

- y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu (Cymru)
- y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu (Cymru)
- Rheolau Safonau Gweithredol (Cymru)
- Trefniadau Monitro Rheolau Safonau Gweithredol (Cymru)

# 2. Dosbarthau cofrestru

2.1 Mae pedwar dosbarth cofrestru ar gyfer arolygwyr adeiladu unigol:

a. Dosbarth 1: arolygydd adeiladu o dan hyfforddiant

b. Dosbarth 2: arolygydd adeiladu

c. Dosbarth 3: arolygydd adeiladu

d. Dosbarth 4: arolygydd adeiladu (rheolwr technegol)

2.2 Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol rheolaeth adeiladu unigol sy'n cyflawni'r rolau a ddisgrifir yn y dosbarthau hyn, ni waeth pa fath o adeiladau neu brosiectau adeiladu y maent yn gweithio arnynt, gofrestru â'r awdurdod rheoleiddio a chydymffurfio â'r Cod.

2.3 Rhaid i awdurdodau lleol a Chymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu sicrhau bod gan y rhai hynny sy'n cyflawni gweithgareddau cyfyngedig, neu sy'n eu cynghori ar swyddogaethau cyfyngedig, gymhwysedd addas a'u bod wedi eu cofrestru yn y dosbarth priodol.

2.4 Mae Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu yn gyfrifol am gydnabod terfynau eu cymhwysedd a gwybod pryd y dylai prosiectau penodol gael eu rheoli gan, er enghraifft, arolygydd adeiladu sydd â chymhwysedd uwch, neu pryd y gall fod angen cael cymorth arbenigol, gan beiriannydd strwythurol neu beiriannydd tân.

2.5 Mae'r tudalennau nesaf yn disgrifio'r hyn sy'n ofynnol o ran cymhwysedd er mwyn i unigolyn gofrestru. Bydd y manylion yn dibynnu ar y rôl benodol y mae'r unigolyn yn ei chyflawni – mae'r adrannau hyn yn 'ddangosol'.

2.6 Nid cyflawniad statig yw cymhwysedd. Mae angen ei gynnal a'i ddatblygu er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y diwydiant a helpu i wella'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i'r gwaith proffesiynol a wneir.

## Rôl yr Arolygydd Cofrestredig Adeiladu

2.7 Rhaid i Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu fod yn gymwys i ymgymryd â gweithgareddau a rhoi cyngor am swyddogaethau rheolaeth adeiladu o fewn terfynau eu dosbarth a'u profiad eu hunain. Dylai hyn gynnwys:

a. dealltwriaeth dechnegol o ddeddfwriaeth, canllawiau a safonau cysylltiedig ym maes rheolaeth adeiladu er mwyn darparu penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau adeiladu (gweler y diffiniad o "building regulations" yn adran 122 o Ddeddf Adeiladu 1984)

b. prosesau a gweithdrefnau gan gynnwys nodi achosion o beidio â chydymffurfio a rheoli'r gwaith o ddatrys pryderon a nodir mewn modd effeithiol

c. meysydd arbenigol technegol o fewn y meysydd pwnc cymhwysedd

d. defnydd priodol o arbenigwyr sy’n gallu cefnogi penderfyniadau rheolaeth adeiladu

e. arolygu, asesu cynlluniau, ac ardystio bod gwaith wedi’i gwblhau’n derfynol

f. cyfathrebu'n effeithiol â'r holl bartïon â buddiant

g. nodi ei gymwyseddau ei hun a chymwyseddau pobl eraill a myfyrio arnynt

h. goruchwylio pobl eraill os yw’n briodol

i. cynghori ar swyddogaethau cyfyngedig, fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth

## Deddfwriaeth sy’n berthnasol i reolaeth adeiladu

2.8 Mae’r ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i reolaeth adeiladu yn cynnwys:

a. Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig

b. Deddf Adeiladu 1984 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig

c. Deddf Diogelwch Tân ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig

d. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

e. Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010

f. Deddf Mangreoedd Diffygiol 1972

g. Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975

h. Deddf Diogelwch Tân a Lleoedd Chwaraeon 1987

## Symud drwy ddosbarthau a rhyngddynt

2.9 Mae’n bosibl y bydd unigolion am wella eu datblygiad proffesiynol drwy’r dosbarthau cofrestru. Dim ond o dan oruchwyliaeth person â chymhwysedd priodol y caniateir gwneud unrhyw waith o'r fath, er enghraifft, Arolygydd Cofrestredig Adeiladu sydd wedi ei gofrestru yn y dosbarth priodol ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud. Dylid cofnodi yr holl waith a oruchwylir fel y bo’n

briodol, gan gynnwys manylion y goruchwylydd a’r sawl sy’n cael ei oruchwylio.

2.10 Mae symud ymlaen yn dibynnu ar ddangos datblygiad unigolyn o ran ei sgiliau, ei wybodaeth, ei brofiad a'i ymddygiadau sy'n gysylltiedig â meysydd pwnc y Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu. Ni fydd pawb yn symud drwy'r dosbarthau mewn ffordd unionlin yn angenrheidiol, a gall Arolygydd Adeiladu dosbarth 2 hefyd gofrestru fel rheolwr technegol dosbarth 4.

## Goruchwylio

2.11 At ddibenion y proffesiwn rheolaeth adeiladu, bydd goruchwylio yn cynnwys goruchwylio neu gyfarwyddo tasgau, gweithgareddau neu brosesau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn briodol, yn gywir ac i’r safonau gofynnol. Am ragor o wybodaeth am oruchwylio, ewch i’r canllawiau: Arolygwyr cofrestredig adeiladu | LLYW.CYMRU

## Dosbarth 1: Arolygydd Adeiladu o dan Hyfforddiant

### Proffil

2.12 Mae'r dosbarth hwn yn briodol ar gyfer person sy'n gweithio ym maes rheolaeth adeiladu nad yw’n gallu, adeg ei gofrestru gyntaf, dangos y cymwyseddau sy'n ofynnol i weithio heb oruchwyliaeth.

2.13 Term ‘generig’ yw dan hyfforddiant, sy'n ymwneud â phawb sy'n dechrau gweithio yn y proffesiwn naill ai:

a. heb unrhyw arbenigedd academaidd na galwedigaethol sy'n gysylltiedig â rheolaeth adeiladu a'r amgylchedd adeiledig

b. â chymwysterau academaidd neu alwedigaethol ond heb brofiad rheolaeth adeiladu, neu

c. ag ymwybyddiaeth, profiad a dealltwriaeth o waith adeiladu ond â gwybodaeth gyfyngedig o ran manylion cyfredol rheolaeth adeiladu, rheoliadau a'r swyddogaethau a'r gweithgareddau cysylltiedig

2.14 Bydd yr unigolion hyn yn ymgymryd â llwybr hyfforddiant neu ddilysu sy’n gallu cynnwys cymwysterau academaidd a/neu alwedigaethol. Byddant yn gweithio o dan oruchwyliaeth ar lefel sy'n briodol i'r tasgau y maent yn ymgymryd â nhw, nes iddynt symud ymlaen i’w dosbarth cofrestru nesaf.

### Gweithgareddau

2.15 Am rywfaint o’u hamser, mae’n bosibl y bydd arolygwyr adeiladu dosbarth 1 wedi’u lleoli oddi ar y safle, yn astudio theori arolygu adeiladau neu’n cynnal asesiadau. Ar adegau eraill, mae’n bosibl y byddant yn gweithio o dan oruchwyliaeth ar safleoedd arolygu gweithredol ac yn y gweithle.

2.16 Bydd angen i'r rheini sy'n symud ymlaen i ddosbarth cofrestru arall ddatblygu a dangos sgiliau, gwybodaeth, ymddygiadau a phrofiad sy'n gysylltiedig â'r holl feysydd pwnc sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r cymhwysedd angenrheidiol. Bydd yr amserlen ar gyfer cyflawni hyn yn amrywio i unigolion ac mae'n debygol y bydd yn cynnwys astudiaethau academaidd a phrofiad galwedigaethol.

2.17 Bydd y gweithgareddau a gyflawnir yn cynnwys yr holl brosesau cyfreithiol a gweinyddol hyd at gymhwyster lefel 3 cychwynnol[1], gan symud ymlaen i lefelau 4-6 yn eu fframwaith academaidd neu alwedigaethol. Rhaid i unigolion o dan hyfforddiant gael eu goruchwylio dros gyfnod eu hyfforddiant.

## Atebolrwydd

2.18 Mae'r arolygydd adeiladu o dan hyfforddiant yn bennaf atebol am y canlynol:

a. rhaid gweithio o dan oruchwyliaeth briodol

b. rhaid cydymffurfio â'r Cod.

## Sgiliau dangosol

2.19 Y sgiliau dangosol ar gyfer arolygydd adeiladu o dan hyfforddiant:

a. sgiliau personol megis sgiliau rhyngbersonol, sgiliau astudio, sgiliau cyflwyno a sgiliau cyfathrebu

b. sgiliau TG effeithiol

c. cadw cofnodion

d. gallu i gyflawni fel unigolyn ac fel aelod o dîm

e. gallu i ddatblygu drwy ddosbarth 2-4 gyda chymhwysedd priodol.

## Enghreifftiau dangosol o wybodaeth a chymwysterau

2.20 I'w pennu gan y cyflogwr, gan adlewyrchu'r llwybr academaidd neu alwedigaethol a ddewisir ar gyfer yr unigolyn.

## Lefelau dangosol o brofiad

2.21 Byddai lefel gychwynnol yr unigolyn yn adlewyrchu hyn, a gallai gynnwys datblygu a chadarnhau'r canlynol:

a. tystiolaeth o weithio tuag at ennill profiad rheolaeth adeiladu perthnasol

b. mae'n bosibl y bydd pobl sy'n newydd yn y proffesiwn rheolaeth adeiladu, neu'r rheini sy'n gweithredu mewn rolau sy'n gysylltiedig â

[1] What qualification levels mean: England, Wales and Northern Ireland - GOV.UK (www.gov.uk)

rolau arolygwyr adeiladu neu sy'n debyg i'r rolau hynny, hefyd yn gallu dangos profiad defnyddiol

c. gallu i ddatblygu'r sgiliau technegol a'r sgiliau personol i gyflawni'r gweithgareddau a'r swyddogaethau rheolaeth adeiladu a sicrhau cymhwysedd a chydnabyddiaeth broffesiynol

### Ymddygiadau dangosol

2.22 Mae'r ymddygiadau dangosol a ddisgwylir gan arolygydd adeiladu o dan hyfforddiant yn cynnwys:

a. gweithio'n briodol yn yr amgylchedd academaidd ac yn y gweithle tra'n dilyn polisïau a gweithdrefnau cyflogwyr fel unigolyn ac fel aelod o dîm

b. ymroddiad i'r rhaglen a ddewiswyd o weithgareddau academaidd a/neu alwedigaethol perthnasol

c. ymroddiad i gydymffurfio â'r Cod

d. ymddygiadau moesegol a chynhwysol

## Dosbarth 2: Arolygydd Adeiladu

### Proffil

2.23 Mae Arolygwyr Adeiladu Dosbarth 2 yn cyflawni gweithgareddau cyfyngedig ac yn cynghori ar swyddogaethau cyfyngedig, o fewn cyfyngiadau eu cofrestriad. Dyma ddosbarth eang sy'n cynnwys pob math o adeilad heblaw adeiladau nad ydynt yn safonol ac adeiladau risg uchel.

2.24 Bydd rhai o'r bobl sy'n cofrestru yn y dosbarth hwn yn gweithio ar ystod gyfyngedig o fathau o adeilad, e.e. adeiladau domestig yn unig, a bydd eu cofrestriad yn adlewyrchu hyn (fel y manylir yn y Cod).

### Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig

2.25 Y prif weithgareddau y mae'r rôl yn ymgymryd â nhw yw asesu cynlluniau a chynnal arolygiadau er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r gyfraith, safonau a chanllawiau ar gyfer nifer o wahanol fathau o adeilad, ac eithrio adeiladau ansafonol ac adeiladau risg uwch fel y'u diffinnir gan Ddeddf Adeiladau 1984. Mae'r rhain yn ymwneud â'r meysydd pwnc, y gweithgareddau a'r swyddogaethau yn y fframwaith cymhwysedd a'r gallu i gyflawni'n rhain wrth gydymffurfio â chyfyngiadau cofrestriad.

### Atebolrwydd

2.26 Y prif agweddau y mae arolygydd adeiladu yn atebol amdanynt:

a. nodi diffyg cydymffurfedd a gwneud penderfyniadau a chymryd camau i sicrhau cydymffurfedd

b. darparu cyngor cymwys i gyrff rheolaeth adeiladu

c. gweithredu o fewn ei gymhwysedd ei hun a chynnal y cymhwysedd hwnnw, gan helpu eraill i wneud yr un peth

d. nodi achosion o wrthdaro buddiannau a rhoi gwybod amdanynt fel y gellir cymryd camau priodol

e. ymgymryd â'r holl waith gan gydymffurfio â'r Cod

### Sgiliau dangosol

2.27 Y sgiliau dangosol sy'n angenrheidiol:

a. dadansoddi gwybodaeth i fathau perthnasol o adeiladau ac eithrio adeiladau ansafonol ac adeiladau risg uchel

b. gwneud penderfyniadau

c. cadw cofnodion a llunio adroddiadau

d. bod yn gymwys wrth ddefnyddio TG

e. cyfathrebu, dylanwadu a sgiliau rhyngbersonol

f. goruchwylio a mentora arolygwyr o dan hyfforddiant os yw'n briodol

### Enghreifftiau dangosol o wybodaeth a chymwysterau

2.28 Ymhlith enghreifftiau o'r wybodaeth/y cymwysterau angenrheidiol a ddisgwylir gan arolygydd adeiladu y mae:

a. cymhwyster academaidd lefel 4-6 neu hyfforddiant proffesiynol/galwedigaethol perthnasol cyfatebol

b. gwybodaeth ddigonol i gyfrannu at ddangos cymhwysedd yn erbyn y Fframwaith, deddfwriaeth berthnasol i reolaeth adeiladu, Dogfennau Cymeradwy a safonau a chanllawiau perthnasol

f. iechyd a diogelwch

g. dylunio ac adeiladu

h. rheoli newid

### Lefelau dangosol o brofiad

2.29 Mae'r lefelau dangosol o brofiad yn cynnwys:

a. asesu cydymffurfedd yn erbyn deddfwriaeth sy'n berthnasol i reolaeth adeiladu, Dogfennau Cymeradwy a safonau a chanllawiau perthnasol

b. profiad blaenorol o'r mathau o adeiladau y mae'n bwriadu gweithio arnynt

c. arolygiadau

d. asesu cynlluniau

e. llunio amserlenni arolygu a'u rhoi ar waith

f. asesu diogelwch a risgiau

g. cymryd camau i sicrhau cydymffurfedd, gan gynnwys camau gorfodi a/neu ddychwelyd i'r awdurdod lleol pan fo'n briodol

### Ymddygiadau dangosol

2.30 Mae'r ymddygiadau dangosol a ddisgwylir gan arolygydd adeiladu yn cynnwys:

a. ymroddiad i feithrin gwybodaeth a sgiliau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus ("DPP")

b. ymroddiad i weithredu ag uniondeb a pharch gan gydymffurfio â'r Cod

c. gwneud penderfyniadau effeithiol

d. cyfathrebu a dylanwadu

e. gweithio fel unigolyn ac fel aelod o dîm

f. hyblygrwydd a gwydnwch

g. arweinyddiaeth a gweld y darlun cyflawn

h. ymddygiadau moesegol a chynhwysol

## Dosbarth 3: Arolygydd Adeiladu

### Proffil

2.31 Arolygwyr Adeiladu Dosbarth 3 yw'r rheini sydd wedi cofrestru gyda'r wybodaeth a'r profiad ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r gweithgareddau cyfyngedig, a rhoi cyngor i gyrff rheolaeth adeiladu sy'n ymgymryd â swyddogaethau cyfyngedig, mewn cysylltiad â phob math o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch.

### Adeilad(au) safonol ac ansafonol

2.32 Fel rhan o'r dull asesu risg dylai'r gweithiwr proffesiynol rheolaeth adeiladu nodi a yw adeilad neu brosiect yn safonol neu'n ansafonol. Ceir rhagor o wybodaeth ar adeiladau ansafonol yn y Trefniadau Monitro Rheolau Safonau Gweithredol.

### Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig

2.33 Y prif weithgareddau y mae'r rôl yn ymgymryd â nhw yw asesu cynlluniau a chynnal arolygiadau. Arolygu a yw'r adeilad(au) yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n berthnasol i reolaeth adeiladu, safonau a chanllawiau ar gyfer nifer o wahanol fathau o adeilad, gan gynnwys adeiladau ansafonol

a/neu adeiladau risg uwch. Mae'r rhain yn ymwneud â'r meysydd pwnc, y gweithgareddau a'r swyddogaethau yn y fframwaith cymhwysedd a'r gallu i gyflawni'r rhain gan gydymffurfio â chyfyngiadau cofrestriad yr unigolyn.

### Atebolrwydd

2.34 Mae'r prif agweddau y mae arolygydd adeiladu Dosbarth 3 yn atebol amdanynt yn cynnwys:

a. nodi, pennu a chymryd camau i sicrhau cydymffurfedd

b. darparu cyngor cymwys i gyrff rheolaeth adeiladu

c. gweithredu o fewn ei gymhwysedd ei hun a chynnal y cymhwysedd hwnnw, gan helpu eraill i wneud yr un peth

d. nodi achosion o wrthdaro buddiannau a rhoi gwybod amdanynt fel y gellir cymryd camau priodol

e. ymgymryd â'r holl waith gan gydymffurfio â'r Cod

### Sgiliau dangosol

2.35 Mae'r sgiliau dangosol sy'n angenrheidiol yn cynnwys:

a. dadansoddi gwybodaeth mewn perthynas â phob math o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

b. gwneud penderfyniadau

c. cyfathrebu, dylanwadu a sgiliau rhyngbersonol

d. cadw cofnodion a llunio adroddiadau

e. bod yn gymwys wrth ddefnyddio TG

f. goruchwylio a mentora os yw'n briodol

### Enghreifftiau dangosol o wybodaeth a chymwysterau

2.36 Ymhlith enghreifftiau o'r wybodaeth/y cymwysterau angenrheidiol a ddisgwylir gan arolygydd adeiladu y mae:

a. cymhwyster academaidd lefel 6 neu hyfforddiant proffesiynol/galwedigaethol perthnasol cyfatebol gyda gwybodaeth arbenigol am nifer o wahanol fathau o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

b. prosesau a gweithdrefnau rheolaeth adeiladu sy'n cyfeirio'n benodol at nifer o wahanol fathau o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

c. deddfwriaeth berthnasol i reolaeth adeiladu sy'n cyfeirio'n benodol at nifer o wahanol fathau o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

d. Dogfennau Cymeradwy, arferion da a chanllawiau ar gyfer nifer o wahanol fathau o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

e. Memoranda Iechyd Technegol a Bwletinau Adeiladau

f. diogelwch tân/bywyd

g. diogelwch strwythurol

h. diogelwch gwaith adeiladu

i. systemau adeiladu

j. iechyd a diogelwch

k. dylunio ac adeiladu

## Lefelau dangosol o brofiad

2.37 Mae'r lefelau dangosol o brofiad yn cynnwys:

a. asesu cydymffurfedd yn erbyn deddfwriaeth sy’n berthnasol i reolaeth adeiladu, Dogfennau Cymeradwy a safonau a chanllawiau perthnasol mewn perthynas â nifer o wahanol fathau o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

b. profiad blaenorol o'r mathau o adeilad y mae'n bwriadu gweithio arnynt

c. arolygiadau

d. asesu cynlluniau

e. llunio amserlenni arolygu a'u rhoi ar waith ar gyfer nifer o wahanol fathau o adeilad

f. asesu diogelwch a risg ar gyfer nifer o wahanol fathau o adeilad

g. cymryd camau i sicrhau cydymffurfedd, gan gynnwys camau gorfodi a/neu ddychweliad i'r awdurdod lleol pan fo’n briodol

## Ymddygiadau dangosol

2.38 Mae'r ymddygiadau dangosol a ddisgwylir gan arolygydd adeiladu Dosbarth 3 yn cynnwys:

a. ymroddiad i feithrin gwybodaeth a sgiliau drwy DPP

b. gweithredu ag uniondeb a pharch gan gydymffurfio â'r Cod

c. gwneud penderfyniadau effeithiol

d. cyfathrebu a dylanwadu

e. gweithio fel unigolyn ac fel aelod o dîm

f. hyblygrwydd a gwydnwch

g. arweinyddiaeth a gweld y darlun cyflawn

h. ymddygiadau moesegol a chynhwysol

## Dosbarth 4: Arolygydd Adeiladu (Rheolwr Technegol)

### Proffil

2.39 Mae rôl yr Arolygydd Adeiladu Dosbarth 4 (Rheolwr Technegol) yn gyfrifol am y prosesau gweinyddol a thechnegol sy'n gysylltiedig â rheoli'r swyddogaeth rheolaeth adeiladu. Mae hyn yn cynnwys:

a. rheoli tîm rheolaeth adeiladu sy'n gallu cymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyn cyflwyno, y gwaith o ddilysu ceisiadau ar gyfer cymeradwyo rheolaeth adeiladu gan gynnwys ffioedd a thaliadau, y broses asesu cynlluniau hyd at y cam gwneud penderfyniad, creu amserlenni arolygu a chyflawni’r materion hyn o'r cysyniad hyd at y camau cwblhau ac ardystio

b. rheoli a goruchwylio'r gweithdrefnau gorfodi ar gyfer y tîm rheolaeth adeiladu a’r camau gorfodi a gymerir ganddo

c. darparu swyddogaeth rheolaeth adeiladu yn effeithiol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â phob agwedd berthnasol ar ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i reolaeth adeiladu, safonau, canllawiau a Dogfennau Cymeradwy, ac y gorfodir yr holl agweddau perthnasol hyn, ar gyfer pob math o adeilad perthnasol

d. sicrhau bod aelodau o'i dîm yn gymwys ac yn gweithredu o fewn eu cymhwysedd yn unig ac yn unol â'r Cod

2.40 Arolygwyr Adeiladu Dosbarth 4 (Rheolwr Technegol) yw'r unigolion hynny sydd, yn ogystal â meddu ar gymhwysedd Arolygydd Adeiladu dosbarth 2 neu ddosbarth 3, yn gyfrifol am agwedd rheoli technegol tîm rheolaeth adeiladu. Byddai eu rôl yn adlewyrchu dosbarthau'r Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu y maent yn eu rheoli, a byddai cyfyngiadau eu cofrestriad yn adlewyrchu hyn.

### Gweithgareddau a swyddogaethau

2.41 Y prif weithgareddau y mae'r rôl yn ymgymryd â nhw yw:

a. cymhwyso a dilysu ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu mewn cysylltiad â deddfwriaeth sy’n berthnasol i reolaeth adeiladu a rheoli ffïoedd a thaliadau

b. creu, monitro ac archwilio polisïau technegol a gweithdrefnau safonol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethu asesu cynlluniau a blaenoriaethu cynlluniau arolygu

c. ystyried ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu, yn unol ag adran 30 o'r Ddeddf Adeiladu, ac am hepgoriad, yn unol ag adran 11 o'r Ddeddf Adeiladu, os yw'n briodol

d. sefydlu cynlluniau arolygu, dyrannu arolygiadau i Arolygydd Cofrestredig Adeiladu priodol a monitro cofnodion perfformiad a gwaith gorfodi fel sy'n briodol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth sy’n berthnasol i reolaeth adeiladu, safonau, canllawiau a Dogfennau Cymeradwy

e. monitro arolygiadau a gynhelir a rhoi tystysgrifau terfynol/cwblhau pan geir cadarnhad bod y gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu

f. creu a chymhwyso gweithdrefn datrys cwynion ac anghydfodau ar faterion technegol a materion eraill sy'n ymwneud â'r broses rheolaeth adeiladu

g. sicrhau bod y gyfraith sy'n gymwys i rôl rheolaeth adeiladu a'r gwaith o reoli'r tîm rheolaeth adeiladu yn cael ei chymhwyso

h. cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu y mae'n gyfrifol am eu rheoli yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac ymgymryd â gwaith goruchwylio a mentora priodol

i. helpu'r Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu y mae'n gyfrifol am eu rheoli i gynnal eu cymhwysedd drwy sicrhau bod hyfforddiant angenrheidiol a pherthnasol ar gael iddynt a'u bod yn cael eu cefnogi i ymgymryd â DPP perthnasol a phriodol

j. ymgymryd â rôl Arolygydd Cofrestredig Adeiladu dosbarth 2 neu ddosbarth 3 fel sy'n briodol, gan gyfeirio at y prif weithgareddau a restrir o dan 'Rôl yr Arolygydd Cofrestredig Adeiladu’

## Atebolrwydd

2.42 Mae'r prif agweddau y mae Arolygydd Adeiladu (Rheolwr Technegol) yn atebol amdanynt yn cynnwys:

a. rheoli/goruchwylio gwaith ei dîm i sicrhau cydymffurfedd â'r gyfraith

b. sicrhau bod y tîm rheolaeth adeiladu yn gymwys i gyflawni'r gweithgareddau a'r swyddogaethau rheolaeth adeiladu, gan ddarparu cymorth o ran datblygu cymwyseddau, monitro/archwilio cymwyseddau, a chefnogi'r broses gofrestru

c. cofnodi a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau o fewn polisi gwrthdaro buddiannau'r sefydliad ac yn unol â Rheolau Safonau Gweithredol (Cymru) a gyhoeddir gan yr awdurdod rheoleiddio

d. arwain a rheoli'r tîm rheolaeth adeiladu i sicrhau cydymffurfedd â'r gyfraith, y Cod, y Rheolau Safonau Gweithredol a'r dangosyddion perfformiad allweddol a gyhoeddir gan yr awdurdod rheoleiddio yn ogystal â threfniadau sefydliadol

## Sgiliau dangosol

2.43 Mae'r sgiliau dangosol sy'n angenrheidiol yn cynnwys:

a. sgiliau rheoli a sgiliau gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol i bob agwedd ar reolaeth adeiladu

b. craffter ariannol, gan y codir tâl am reolaeth adeiladu a rhaid gallu rhoi cyfrif am yr holl arian

c. sgiliau pobl, cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm, ac arweinyddiaeth

d. ymchwil, dadansoddi, ymwybyddiaeth o risgiau ac asesu sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau

e. bod yn gymwys wrth ddefnyddio TG

f. sgiliau recriwtio a chadw staff, sy'n gysylltiedig â chymwyseddau, hyfforddiant a datblygiad

## Enghreifftiau dangosol o wybodaeth a chymwysterau

2.44 Mae enghreifftiau dangosol o'r wybodaeth a'r cymwysterau yn cynnwys:

a. wedi ei addysgu hyd at yr hyn sy'n cyfateb i gymhwyster academaidd lefel 4-6 yr Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu y mae'n eu rheoli, neu hyfforddiant proffesiynol/galwedigaethol perthnasol cyfatebol gyda phrofiad sylweddol o reolaeth adeiladu

b. gallu deall y Rheolau Safonau Gweithredol, y dangosyddion perfformiad allweddol a'r Cod a gyhoeddir gan yr awdurdod rheoleiddio, yn ogystal â threfniadau sefydliadol, a'u cymhwyso ym maes rheolaeth adeiladu er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r gyfraith

## Lefelau dangosol o brofiad

2.45 Mae'r lefelau dangosol o brofiad yn cynnwys:

a. profiad sylweddol o weithio yn y proffesiwn rheolaeth adeiladu, gan feithrin profiad o'r ystod lawn o weithgareddau a'r swyddogaethau y mae'n eu rheoli

b. profiad sy'n ymwneud â'r holl eitemau a nodir uchod, o'r cysyniad hyd at y camau cwblhau a gorfodi fel sy'n briodol

## Ymddygiadau dangosol

2.46 Mae'r ymddygiadau dangosol a ddisgwylir gan Arolygydd Adeiladu (Rheolwr Technegol) yn cynnwys:

a. gweithredu mewn modd proffesiynol bob amser, gan ddangos lefelau uchel o sgiliau technegol a sgiliau sy'n canolbwyntio ar bobl

b. ymrwymiad i ddatblygu ei wybodaeth a'i sgiliau ei hun a gwybodaeth a sgiliau pobl eraill trwy DPP

c. gweithredu ag uniondeb a pharch ac mewn cydymffurfedd â'r Cod

d. gwneud penderfyniadau effeithiol (bod yn gymwys iawn)

e. cyfathrebu a dylanwadu (bod yn gymwys iawn)

f. arweinyddiaeth a gweld y darlun cyflawn

g. hyblygrwydd a gwydnwch

h. ymddygiadau moesegol a chynhwysol

# 3. Trosolwg o'r Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu

3.1 Mae model y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu wedi ei rannu yn 9 maes pwnc cymhwysedd. Mae'r meysydd hyn yn cydberthyn ac yn gorgyffwrdd ond ar y cyfan maent yn trafod naill ai:

(T) - Cymhwysedd technegol

(C) - Cymhwysedd cyflawni, neu

(Rh) - Cymhwysedd rheoli

3.2 Mae cymhwysedd technegol yn cynnwys:

- gwasanaethau adeiladu
- technoleg
- y gyfraith


3.3 Mae cymhwysedd cyflawni yn cynnwys:

- arolygu a gorfodi
- asesu cynlluniau a gorfodi
- swyddogaethau a gweithgareddau

3.4 Mae cymhwysedd rheoli yn cynnwys:

- moeseg
- rheoli diogelwch
- sgiliau rheoli a sgiliau craidd

Diagram fframwaith cymhwysedd arolygydd adeiladu



# 4. Lefelau cymhwysedd

4.1 Y lefelau cymhwysedd yw:

**A. Ymwybyddiaeth**

Gwybodaeth sylfaenol am y pwnc a sut y mae'n berthnasol i'w rôl.

**B. Gwerthfawrogiad**

Gwybodaeth gefndir gyffredinol am y maes pwnc, ar y cyd â gwerthfawrogi'r amcan. Gall fod angen mewnbwn arbenigol gan bobl eraill i asesu cydymffurfedd.

**C. Dealltwriaeth**

Gwybodaeth ddigonol am y ffactorau, er enghraifft, cyfreithiol a thechnegol), a dealltwriaeth ddigonol ohonynt, sydd ynghlwm â gwneud penderfyniadau a llunio asesiadau annibynnol sy'n seiliedig ar wybodaeth o ran cydymffurfedd gwaith adeiladu arferol, gan gynnwys defnyddio mewnbwn gan arbenigwyr eraill.

**D. Dealltwriaeth gynhwysfawr**

Gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau digon manwl i wneud penderfyniadau ar faterion ansafonol sy'n ymwneud â dylunio a gwaith adeiladu, a'r gallu i gomisiynu a herio cymorth arbenigol pan fo angen.

# 5. Fframwaith meysydd pwnc cymhwysedd y Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu

5.1 Mae'r canlynol yn darparu datganiad cymhwysedd cyffredinol, a manylion o ran yr hyn sydd ei angen i ddangos cymhwysedd, ar gyfer pob un o'r naw maes pwnc cymhwysedd a nodir yn y model trosolwg o'r Fframwaith a welir yn adran 3.

## Y gyfraith

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer y gyfraith

5.2 Cynnal safonau proffesiynol uchel o ran cymhwyso'r gyfraith wrth gyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu.

5.3 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:</u>

a. y gyfraith sy'n berthnasol i reolaeth adeiladu, megis pa ddeddfwriaeth sy'n gymwys ac yn cael ei gorfodi gan weithwyr proffesiynol rheolaeth adeiladu

b. terminoleg gyfreithiol sy'n ymwneud ag egwyddorion y gyfraith ac ymddygiadau cyfreithiol

c. egwyddorion y gyfraith a rolau a chyfrifoldebau unigolion a sefydliadau wrth gymhwyso rheoliadau adeiladu

d. deddfwriaeth sy'n berthnasol i reolaeth adeiladu

5.4 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefel A

b. sut y dylai arolygydd adeiladu gyflawni ei ddyletswyddau mewn cysylltiad â'r gyfraith wrth ei chymhwyso i'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu

5.5 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut y mae'r gyfraith yn rhyngweithio â'r Cod

c. sut i nodi a chymhwyso'r gyfraith wrth ymgymryd â swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu

5.6 Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. sut i gymhwyso'r gyfraith berthnasol i adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

### Y Gyfraith – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.7 Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. Egwyddorion y gyfraith gan gynnwys:

i. adolygiad o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheolaeth adeiladu; diben, creu, datblygu, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, sut y mae polisïau, gweithdrefnau ac ymgynghoriadau sefydliadol yn gysylltiedig â chymhwyso'r gyfraith

ii. sut y mae dyletswyddau unigol a sefydliadol o ran dylunio, adeiladu, arolygu, cydymffurfio a gorfodi yn helpu i sicrhau adeiladau sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy

iii. statws cyfreithiol dogfennau eraill, er enghraifft Dogfennau Cymeradwy a chanllawiau

iv. sut y mae'r gyfraith, materion cyfreithiol ac ymddygiadau yn cael eu cymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfedd

v. system gyfreithiol Cymru a/neu Loegr

5.8 Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. sut y mae'r gyfraith yn rhyngweithio â swyddogaethau rheolaeth adeiladu, gweithgareddau cyfyngedig a swyddogaethau cyfyngedig

5.9 Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut i gymhwyso'r gyfraith er mwyn sicrhau cydymffurfedd wrth ymgymryd â gweithgareddau rheolaeth adeiladu, er enghraifft asesu cynlluniau ac arolygiadau

c. y pwerau gorfodi sydd ar gael, eu cwmpas a'u cyfyngiadau, pryd a sut i'w cymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfedd

d. sut y mae cymhwyso sgiliau personol, technegol a phroffesiynol (sy'n ymwneud â'r gyfraith) yn gwella'r ffordd yr ymgymerir â gweithgareddau a swyddogaethau rheolaeth adeiladu

5.10 Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. cymhwyso deddfwriaeth berthnasol i adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch er enghraifft Memoranda Technegol Iechyd

## Technoleg

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer technoleg

5.11 Dangos lefelau uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y mae'r amgylchedd adeiledig wedi datblygu dros amser, y pontio o ddyluniadau traddodiadol i rai arloesol a'r rôl y mae deunyddiau, cydrannau a systemau yn ei chwarae o ran sicrhau cydymffurfedd â'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar adeg yr adeiladu ac yn ystod unrhyw waith dilynol.

5.12 Dangos lefelau uchel o arbenigedd a sgiliau proffesiynol sy'n ymwneud ag adeiladu'r amgylchedd adeiledig a chyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu. Mae cymhwysedd ym maes pwnc technoleg yn cynnwys technoleg adeiladu (adeiladau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd), systemau adeiladau, dulliau modern o adeiladu a chynaliadwyedd.

5.13 Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. disgwyliadau rheolaeth adeiladu ar gyfer adeiladau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd, ffurf a swyddogaeth yr adeiladu, systemau, cydrannau a deunyddiau, gan ystyried datblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol

b. dyluniadau diogelwch tân, gan gynnwys y ffordd y mae pobl a deunyddiau yn ymddwyn, a'r dulliau adeiladu y mae angen eu defnyddio er mwyn sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau adeiladu

c. perfformiad strwythurol gwahanol ddulliau adeiladu a mathau o adeiladu

d. terminoleg sy'n ymwneud â gwarantiadau a gwarantau, a'u llawlyfrau cysylltiedig pan gânt eu defnyddio er mwyn profi cydymffurfedd yn ystod y prosesau a gweithdrefnau adeiladu a rheolaeth adeiladu

e. ymchwil gysylltiedig i ddeunyddiau, technolegau a systemau a gyflwynir fel elfennau/modiwlau mewn adeiladau

f. profi, ardystio a chanllawiau cysylltiedig o'r cyfnod gweithgynhyrchu drwy'r prosesau cludo ac ymgorffori'r gwahanol elfennau yn yr amgylchedd adeiledig

g. terminoleg cynaliadwyedd sy'n ymwneud â Deddf Adeiladu 1984 a rheoliadau adeiladu

h. y defnydd o dechnoleg gyfrifiadurol megis modelu gwybodaeth adeiladau

i. cysyniadau cynaliadwyedd a sut y gellir eu cymhwyso ym maes adeiladu, adnoddau a'r defnydd ohonynt

5.14 Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. sut y mae meini prawf lefel A a lefel B yn rhyngweithio â'r holl weithgareddau a swyddogaethau rheolaeth adeiladu

5.15 Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut y mae meini prawf lefelau A–C yn rhyngweithio â'r holl weithgareddau a swyddogaethau rheolaeth adeiladu

5.16 Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. cymhwyso'r meini prawf hyn i'r holl adeiladau gan gyfeirio'n benodol at adeiladau ansafonol ac adeiladau risg uwch

Technoleg – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.17 Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. y rheoliadau adeiladu sydd mewn grym, sut y maent wedi newid dros amser, a'r gwahanol ffurfiau ar adeiladu a'r gwahanol dechnolegau a ddefnyddir i sicrhau cydymffurfedd

b. patholeg adeiladau a datblygu systemau a chydrannau adeiladau a deunyddiau adeiladu

c. yr amgylchedd adeiledig presennol, datblygu a chreu adeiladau newydd a'r rheoliadau adeiladu sydd mewn grym ar hyn o bryd yn ogystal â'r rheini a oedd mewn grym adeg dylunio, adeiladu ac arolygu adeiladau

d. ffurf a swyddogaeth adeiladu adeiladau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd o ystyried datblygiadau a galwadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol

e. peirianneg tân, diogelwch a dylunio, gan gynnwys y ffordd y mae pobl a deunyddiau yn ymddwyn, a'r dulliau adeiladu y mae angen eu defnyddio er mwyn sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau adeiladu

f. mesurau diogelwch peirianneg tân sy'n ymwneud ag adeiladau uchel iawn, adeiladau risg uchel ac adeiladau ansafonol

g. peirianneg strwythurol, y ffordd y mae deunyddiau'n perfformio a dyluniad strwythurau

h. peirianneg strwythurol, athroniaethau dylunio, ac arfarnu dyluniadau ar gyfer adeiladau risg uwch ac adeiladau ansafonol

i. y gofynion yswiriant o ran rolau unigolion a sefydliadau yn y diwydiant adeiladu a gweithgareddau rheolaeth adeiladu

j. cydnabod risgiau a rôl llawlyfrau technegol o ran bodloni gofynion swyddogaethol y rheoliadau adeiladu

k. datblygu, cymhwyso a defnyddio strategaethau cydymffurfio er mwyn bodloni gofynion y rheoliadau adeiladu, er enghraifft, gofynion thermol a gofynion o ran tân, hygyrchedd, awyru, sŵn, draenio

5.18 Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. arddangos cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, ac adnewyddiadau, drwy'r prosesau asesu cynlluniau ac arolygu, a'r gwaith

o ymgorffori systemau a chydrannau adeiladau a deunyddiau adeiladu a'u hintegreiddio yn yr adeilad mewn ffordd sy'n sicrhau cydymffurfedd

c. sut y mae yswiriant, gwarantiadau a gwarantau, a llawlyfrau a dogfennau cysylltiedig y cynnyrch a'r system a ddefnyddir, yn rhyngweithio â'r swyddogaethau a'r gweithgareddau rheolaeth adeiladu

d. sut y mae meini prawf lefel A a lefel B yn rhyngweithio â'r holl weithgareddau a swyddogaethau rheolaeth adeiladu

5.19 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut y mae meini prawf lefel A, B ac C yn ymwneud â chyflawni'r holl weithgareddau a swyddogaethau rheolaeth adeiladu, a'r Cod

5.20 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. cymhwyso meini prawf lefelau A, B, C a D i adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

## Gwasanaethau adeiladau

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer gwasanaethau adeiladau

5.21 Cynnal safonau proffesiynol uchel yn ystod y prosesau o ystyried a derbyn gwasanaethau adeiladau wrth arddangos cydymffurfedd â'r rheoliadau priodol (yr holl swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu). Diffinnir gwasanaethau adeiladau fel y darpariaethau sy'n sicrhau bod adeilad yn gweithio a'i fod yn addas i gael ei ddefnyddio, gan gynnwys gwres, goleuadau, awyru, draenio, canfod tân, larymau, ac ati fel y'u nodir yn yr wybodaeth bwnc fanwl.

5.22 Ymwybyddiaeth o rôl gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu hintegreiddio yn yr amgylchedd adeiledig, yn ogystal â'u dylunio, eu gosod, eu harolygu, eu comisiynu, eu cynnal a'u cadw, eu hardystio a’u defnyddio yn effeithiol a'u hystyried yn y prosesau asesu cynlluniau ac arolygu.

5.23 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:</u>

a. y ddarpariaeth o wasanaethau a'r rôl y maent yn ei chwarae mewn adeilad o ystyried defnydd a meddiannaeth yr adeilad

5.24 Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o’r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. datblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol sy'n berthnasol i wasanaethau adeiladau, a sut y mae'r rhain yn effeithio ar ymgymryd â gweithgareddau rheolaeth adeiladu mewn cysylltiad â gwaith newydd, ac integreiddio gwasanaethau newydd mewn adeiladau sydd eisoes yn bodoli

5.25 Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut i nodi'r gwasanaethau sy'n ofynnol o ystyried y ffordd/ffyrdd y cynigir defnyddio'r adeilad a'r ffordd y cânt eu hintegreiddio yn y ffurf adeiledig, mewn cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu

5.26 Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. rôl gwasanaethau adeiladu a'r ffordd y cânt eu darparu a'u defnyddio mewn adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

## Gwasanaethau adeiladau – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.27 Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. cynlluniau person cymwys a'u rôl o ran sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu

b. dylunio, gosod, arolygu a chomisiynu gwasanaethau adeiladau sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

   i. gwasanaethau dŵr gan gynnwys systemau draenio dŵr budr a dŵr storm

   ii. systemau gwresogi

   iii. systemau awyru/aerdymheru

   iv. systemau trydan

   v. atebion ynni adnewyddadwy

   vi. cafnau llithro a sugno systemau gwaredu gwastraff

   vii. canfod tân, larymau, goleuadau argyfwng ac arwyddion ar gyfer adeiladau newydd a gwaith mewn ymateb i archwiliadau tân

viii. systemau llethu tân, boed yn wlyb neu'n sych

ix. systemau rheoli mwg ac awyru tân a roddir ar waith mewn cysylltiad â ffyrdd o ddianc, boed yn naturiol neu'n fecanyddol

x. lifftiau, gan gynnwys lifftiau, offer codi, a grisiau symudol ar gyfer diffodd tân

xi. systemau cyfathrebu

5.28 Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau ac adnewyddiadau drwy'r prosesau asesu cynlluniau ac arolygu

c. sut y mae meini prawf lefel A a B yn ymwneud â gweithgareddau a swyddogaethau rheolaeth adeiladu

5.29 Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut y mae meini prawf lefel A, B ac C yn ymwneud â gweithgareddau a swyddogaethau rheolaeth adeiladu

c. sut i nodi'r gwasanaethau sy'n ofynnol o ystyried y ffordd/ffyrdd y cynigir defnyddio'r adeilad a'r ffordd y cânt eu hintegreiddio yn y ffurf adeiledig, mewn cydymffurfedd â'r gyfraith

5.30 Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. cymhwyso meini prawf lefelau A–D gydag adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

## Swyddogaethau a gweithgareddau

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu

5.31 Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth gyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu

5.32 Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. y gweithgareddau a'r swyddogaethau, boed yn gyfyngedig ai peidio, a gyflawnir gan sefydliadau rheolaeth adeiladu

b. rôl rheolaeth adeiladu yn y broses ddatblygu a'r swyddogaethau a'r gweithgareddau unigol a gyflawnir gan sefydliadau rheolaeth adeiladu

5.33 Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. rôl rheolaeth adeiladu yn y broses ddatblygu a'r swyddogaethau a'r gweithgareddau unigol a gyflawnir gan unigolion cofrestredig ac unigolion nad ydynt yn gofrestredig (gweinyddol, technegol, a rheoli)

c. y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth rheolaeth adeiladu

5.34 Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut i gyflawni'n effeithiol swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu sy'n briodol i rôl Arolygydd Cofrestredig Adeiladu ac yn unol â'r Cod

5.35 Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. sut i gyflawni'n effeithiol swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu sy'n briodol i rôl Arolygydd Cofrestredig Adeiladu (fel sy'n briodol ar gyfer adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch) ac yn unol â'r Cod

## Swyddogaethau a gweithgareddau – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.36 Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. deddfwriaeth sy'n berthnasol i reolaeth adeiladu

b. gweithgareddau cyn cyflwyno

c. ymgynghoriadau mewn cysylltiad â chynigion ceisiadau posibl a chymhwyso'r rheoliadau adeiladu a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, er enghraifft tân, dŵr

d. ystyried esemptiadau, ceisiadau dilys a'r prosesau sydd i'w dilyn gan gynnwys llacio a hepgor gofynion os yw'n briodol

e. cytuno ar ffioedd a thaliadau (gan gynnwys esemptiadau), lefelau gwasanaeth, cyflwyno a dilysu

f. ceisiadau cynlluniau llawn, hysbysiadau adeiladu, unioniadau, dychweliadau, hysbysiadau cychwynnol, tystysgrifau cynlluniau, etc.

g. rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n cyflogi'r cyrff rheolaeth adeiladu ar gyfer gwaith rheolaeth adeiladu (cleientiaid), gan gyfeirio at y ddyletswydd yn y Cod

h. gwaith asesu cynlluniau, a chynlluniau arolygu ar gyfer pob cais ac ar gyfer gwaith gorfodi

i. cytundebau adeiladu dros garthffosydd

j. ymgynghoriadau cynllunio gan gynnwys rhyngweithio â swyddogaethau cynllunio ar faterion diogelwch tân

k. archwiliadau strwythurol ac archwiliadau diogelwch tân, y defnydd o lyfrau log a llawlyfrau adeiladau a gynhyrchir fel rhan o'r broses rheolaeth adeiladu ac a gynhelir drwy gydol y cyfnod pan fo adeilad wedi'i feddiannu

l. strwythurau peryglus, dymchweliadau, safleoedd a mangreoedd diffygiol

m. diogelwch mewn meysydd chwaraeon a thrwyddedu

5.37 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefel A

b. swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu, a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd

c. cydymffurfedd â'r swyddogaethau a'r gweithgareddau rheolaeth adeiladu a gyflawnir gan Awdurdodau Lleol a Chymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu

d. y swyddogaeth rheolaeth adeiladu fel y'i cymhwysir i bob math o adeilad ac eithrio adeiladau ansafonol ac adeiladau risg uwch yn ystod y cyfnod pan gânt eu dylunio, eu hadeiladu a'u defnyddio

5.38 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A a B

b. y swyddogaethau a'r gweithgareddau rheolaeth adeiladu sy'n ymwneud â phob math o adeilad ac eithrio adeiladau ansafonol ac adeiladau risg uwch yn ystod y cyfnod pan gânt eu dylunio, eu hadeiladu a'u defnyddio

5.39 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. y swyddogaethau rheolaeth adeiladu fel y'i cymhwysir i bob math o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

## Asesu cynlluniau a gorfodi

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer asesu cynlluniau a gorfodi

5.40 Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth ymgymryd â gwaith asesu cynlluniau, asesu risgiau a blaenoriaethu sy'n arwain at benderfyniadau ar gydymffurfedd.

5.41 Rôl y gwaith o asesu cynlluniau, y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n rhan o'r gwaith hwn gan gynnwys ymgynghoriadau o'r cyfnod cyflwyno a dilysu hyd at benderfyniad am gydymffurfedd neu wrthod (a rhoi tystysgrifau cynlluniau os yw'n briodol).

5.42 Cydnabod y ffaith bod rheoleiddio ac asesu cydymffurfedd yn dechrau pan gaiff cais ei gyflwyno ac yn parhau yn ystod y cyfnod asesu cynlluniau.

5.43 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:</u>

a. rôl prosesau a gweithdrefnau asesu cynlluniau, gan gynnwys ymgynghoriadau o'r cyfnod cyflwyno a dilysu hyd at benderfyniad ar gydymffurfedd neu wrthod, neu roi tystysgrif cynlluniau

b. prosesau gorfodi a gwirio cydymffurfedd yn dechrau yn y cyfnod asesu cynlluniau

c. y disgwyliadau o ran sgiliau a chymhwysedd sy'n ofynnol er mwyn asesu cynlluniau

5.44 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefel A

b. rolau a chyfrifoldebau’r tîm datblygu yn y prosesau a'r gweithdrefnau

c. y broses asesu cynlluniau sy'n gysylltiedig â ffurf a swyddogaeth yr adeiladu o ystyried datblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol ac ymgymryd â gweithgareddau rheolaeth adeiladu mewn cysylltiad â gwaith newydd

5.45 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut i asesu cynlluniau'n effeithiol ar gyfer pob math o adeilad ac eithrio adeiladau ansafonol ac adeiladau risg uwch

c. sut i adolygu'r agweddau allweddol ar strategaethau dylunio, asesu'r safonau technegol sydd i'w cymhwyso, nodi elfennau hanfodol yn y cynigion a'u hintegreiddio yng ngwaith asesu cydymffurfedd a rhoi penderfyniadau effeithiol

d. sut i fynegi materion technegol a materion sy'n ymwneud â chydymffurfedd yn effeithiol i bob aelod o'r tîm datblygu

e. sut i weithio gydag ymgyngoreion statudol a rheoleiddwyr partner er mwyn sicrhau consensws

5.46 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. prosesau asesu cynlluniau a gweithdrefnau priodol ar gyfer pob adeilad, gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

## Asesu planiau a gorfodi – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.47 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:</u>

a. gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud ag asesu cynlluniau, fel y'u disgrifir yn y ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i reolaeth adeiladu ac fel sy'n gymwys i'r prosiect o dan sylw:

b. y broses asesu cynlluniau a gymhwysir ar ôl cael a dilysu ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu

c. adolygu dogfennaeth ac asesu defnydd, amlddefnydd, maint arwynebedd, cyfaint, uchder a meddiannaeth

5.48 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefel A

b. asesu risg yn ymwneud â'r math o adeilad a blaenoriaethu cydymffurfedd

c. ceisiadau am wybodaeth bellach, manylebau, cyfrifiadau a manylion cysylltiedig ac ystyried y rhain er mwyn cadarnhau/cymeradwyo cydymffurfedd a rhoi penderfyniadau o fewn yr amserlen ddeddfwriaethol, cynlluniau wedi eu pasio, cymeradwyaeth amodol neu gymeradwyaeth cam neu wrthod am beidio â chydymffurfio neu roi tystysgrifau cynlluniau

d. profiad ac arbenigedd datblygwr/adeiladwr a rhyngweithio â'r broses asesu cynlluniau o ystyried y gwaith sydd mewn golwg a nifer yr arolygiadau a'r mathau o arolygiadau sy'n ofynnol

e. cofnodi'r gwaith o asesu cynlluniau a chreu trywydd archwilio gyda chamau gweithredu priodol a manylion y strategaethau a ddefnyddiwyd er mwyn sicrhau cydymffurfedd

5.49 Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau, unioniadau drwy'r prosesau asesu cynlluniau

5.50 Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. defnyddio'r prosesau asesu cynlluniau a rôl y prosesau hyn o ran sicrhau cydymffurfedd yn yr amgylchedd adeiledig presennol ar gyfer pob adeilad, gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

## Arolygiadau a gorfodi

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer arolygiadau a gorfodi

5.51 Cynnal safonau proffesiynol uchel yn ystod prosesau arolygu a chychwyn camau gorfodi, fel sy'n briodol, er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu.

5.52 Prosesau a gweithdrefnau arolygu a'r cyfnod pontio o pan ddaw cais am waith adeiladu i law a'r gwaith cysylltiedig o adolygu cynlluniau, hyd at y gwaith ffisegol o adeiladu ar y safle.

5.53 Gorfodi a'r ffordd y caiff camau gorfodi eu cymhwyso yn ystod y prosesau rheoleiddio adeiladu o ran sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau ac unioniadau, drwy'r prosesau arolygu.

5.54 Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. prosesau a gweithdrefnau arolygu a'r cyfnod pontio o gynlluniau hyd at y gwaith ffisegol o adeiladu ar y safle

b. disgwyliadau mewn cysylltiad â sgiliau a chymwyseddau o ran arolygu adeiladau a sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu

c. y term ‘gorfodi’ a sut y'i cymhwysir yn y prosesau rheoleiddio adeiladu

d. y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith a chamau cyfreithiol priodol a chyweirio gwaith nad yw'n cydymffurfio

5.55 Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. effaith datblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol ar y broses arolygu a'r gwaith o ymgymryd â swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu

c. sut y mae gorfodi yn effeithio ar adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau, dychweliadau ac unioniadau

5.56 Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. gweithredu a chyflawni cynlluniau arolygu a pholisïau gorfodi addas ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau, dychweliadau ac unioniadau, gan gynnwys camau cyfreithiol priodol a chyweirio gwaith nad yw'n cydymffurfio, ar gyfer pob math o adeilad ac eithrio adeiladau ansafonol ac adeiladau risg uwch

c. sut y mae meini prawf gorfodi sy’n gysylltiedig â deddfwriaeth berthnasol i reolaeth adeiladu yn rhyngweithio o fewn prosesau asesu cynlluniau ac arolygu sy’n berthnasol i bob cais rheolaeth adeiladu.

d. y rôl hanfodol y mae gorfodi yn ei chwarae a sut y mae cydymffurfedd â deddfwriaeth berthnasol i reolaeth adeiladu yn rhyngweithio â'r Cod

e. y gallu i fynegi materion technegol a materion sy'n ymwneud â chydymffurfedd yn effeithiol i bob aelod o'r tîm datblygu

5.57 Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. sut i roi cynlluniau arolygu a pholisïau gorfodi addas ar waith a'u cyflawni ar gyfer adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

c. sut i sicrhau bod pob aelod o'r timau rheolaeth adeiladu a datblygu yn deall y gweithdrefnau arolygu a gorfodi a'r ffordd y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfedd, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

### Arolygiadau a gorfodi – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.58 Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. terminoleg gorfodi a chyfraith rheolaeth adeiladu berthnasol

b. cynlluniau arolygu a pholisïau gorfodi effeithiol ar gyfer estyniadau, newidiadau, adnewyddiadau ac adeiladau newydd er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau adeiladu

c. sut y mae'r canlynol yn effeithio ar brosesau arolygu a gorfodi:

   i. y math o adeilad, sut y caiff adeilad ei ddefnyddio, y dull adeiladu

   ii. ffactorau amgylcheddol megis tywydd tymhorol

   iii. profiad ac arbenigedd y datblygwr

   iv. pa mor gymhleth yw'r gwaith mewn golwg

   v. unrhyw elfennau hanfodol a nodir

d. gweithdrefnau arolygu gan gynnwys trefnu, paratoi, samplu, profi a chasglu tystiolaeth

e. rôl TG, ffotograffau, dronau, fideos, y we ac e-bost

f. cofnodi arolygiadau a chreu trywydd archwilio gyda chamau priodol gan gynnwys gorfodi yn cael eu nodi a’u gweithredu

g. cwblhau ac ardystio

h. gwaharddebau, adroddiadau a'r ffordd y maent yn rhyngweithio ag asesiadau o gynlluniau ac arolygiadau

i. gweithdrefnau gweinyddol, camau gweithredu ac amserlenni yn arwain at achos llys

5.59 Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. rôl gorfodi a chyweirio gwaith nad yw'n cydymffurfio

c. sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau, dychweliadau ac unioniadau, drwy'r prosesau arolygu

5.60 Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut i ddefnyddio a chyflawni cynlluniau arolygu a pholisïau gorfodi addas ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau, dychweliadau ac unioniadau, gan gynnwys camau cyfreithiol priodol a chyweirio gwaith nad yw'n cydymffurfio, ar gyfer pob math o adeilad ac eithrio adeiladau ansafonol ac adeiladau risg uwch

5.61 Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. cymhwyso prosesau a gweithdrefnau arolygu a gorfodi rheolaeth adeiladu, a'u rolau yn yr amgylchedd adeiledig presennol mewn perthynas ag adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

## Sgiliau rheoli a sgiliau craidd

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer sgiliau rheoli a sgiliau craidd

5.62 Cynnal safonau proffesiynol uchel yn y tîm rheolaeth adeiladu drwy gymhwyso sgiliau rheoli a sgiliau craidd er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r ddeddfwriaeth briodol sy’n berthnasol i reolaeth adeiladu.

5.63 Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. rôl sgiliau rheoli a sgiliau craidd a'r ffordd y cânt eu hintegreiddio yn y swyddogaethau a'r gweithgareddau rheolaeth adeiladu, sut i'w datblygu'n effeithiol a sut i'w cymhwyso mewn cysylltiad â'r sefydliad a gweithgareddau unigol

b. y ffaith bod sgiliau rheoli a sgiliau craidd yn gynyddol, a bod cymhwysedd yn berthnasol i'r rôl a gyflawnir, a'i fod yn datblygu drwy gydol bywyd personol a bywyd gwaith yr unigolyn

5.64 Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. rôl sgiliau rheoli a sgiliau craidd o ran sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau, dychweliadau ac unioniadau

5.65 Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut i ddefnyddio sgiliau rheoli a sgiliau craidd wrth gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu sefydliad ar gyfer pob math priodol o adeilad, gan gynnwys cadarnhau a datblygu'r cymwyseddau hynny ar gyfer staff rheolaeth adeiladu

5.66 Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. y gallu i nodi’r sgiliau rheoli a’r sgiliau craidd priodol a’u defnydd cadarnhaol wrth weithredu fel rheolwr tîm effeithiol

## Sgiliau rheoli a sgiliau craidd – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.67 Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. y sgiliau rheoli a'r sgiliau craidd sy'n ofynnol gan sefydliadau ac unigolion, mewn gwahanol rolau, er mwyn bodloni'r Cod a chyflawni gwaith rheolaeth adeiladu yn effeithiol

b. bod rhaid i reoli blaenoriaethau gwaith, amser, a chynnal a datblygu cymhwysedd, ymhlith materion eraill, i gyd gael eu rheoli’n effeithiol gan weithwyr proffesiynol rheolaeth adeiladu

c. y prif sgiliau craidd gan gynnwys cyfathrebu, cydweithio, datrys anghydfodau, datrys problemau, rhifedd, sgiliau TGCh, cofnodi gwaith/llunio adroddiadau, bod yn barod i ymaddasu, a gweithio gyda phobl eraill

d. bydd y sgiliau rheoli ar gyfer y sefydliad a'r unigolyn yn mynd i'r afael â phob un o'r canlynol, yn dibynnu ar y sefyllfa:

   i. cyfraith cwmnïau a'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â rheolaeth adeiladu

   ii. ymwybyddiaeth fasnachol, marchnata ac ariannol

   iii. cyflogaeth, amrywiaeth a chydraddoldeb

   iv. rheoli pobl

   v. cynllunio a darparu gwasanaethau a defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol

   vi. gwneud penderfyniadau, dirprwyo a grymuso

vii. hyfforddi, datblygu, monitro, dilysu a chofrestru'r gweithwyr proffesiynol rheolaeth adeiladu y mae'n eu rheoli

viii. sgiliau ymchwilio ac ymchwil

ix. gwaith rheoli prosiect sy'n gysylltiedig â rheolaeth adeiladu

x. cwynion, datrys anghydfodau, gorfodi, ac achosion llys, rheoli amser

xi. datblygu arweinyddiaeth, timau ac unigolion

xii. rheoli adnoddau allanol perthnasol, er enghraifft contractwyr

xiii. rhoi gwybodaeth i'r cleient

5.68 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefel A

b. y defnydd o sgiliau rheoli a sgiliau craidd er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau, dychweliadau ac unioniadau

5.69 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut i gymhwyso'r sgiliau rheoli a'r sgiliau craidd sy'n ofynnol i gyflawni gwaith rheolaeth adeiladu er mwyn helpu i sicrhau adeiladau sy'n cydymffurfio o bob math gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch (o'r cysyniad hyd at y camau cwblhau ac ardystio)

c. sut y mae sgiliau rheoli a sgiliau craidd yn dylanwadu ar waith dylunio, gosod, arolygu, comisiynu, ac ardystio wrth sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau adeiladu

5.70 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. sut i sicrhau bod aelodau o'r tîm rheolaeth adeiladu, yn ogystal â dangos sgiliau rheoli da a sgiliau craidd da wrth gyflawni gwaith rheolaeth adeiladu yn effeithiol, hefyd yn gallu cadarnhau eu cymhwysedd a chynnal a datblygu cymhwysedd os oes angen

## Rheoli diogelwch

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer rheoli diogelwch

5.71 Cynnal safonau proffesiynol uchel sy'n ymwneud â diogelwch ei hun a phobl eraill yn ystod y prosesau adeiladu a datblygu a gyflawnir ar y safle ac yn y swyddfa.

5.72 Gallu aelodau o'r tîm rheolaeth adeiladu i ddefnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymwyseddau wrth hybu a rheoli diogelwch, gan fodloni eu gofynion mewn cysylltiad â'r swyddogaeth rheolaeth adeiladu ar yr un pryd, ac i roi gwybod am unrhyw faterion o bryder sy'n dod i'r amlwg i'r awdurdod gorfodi priodol.

5.73 Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

a. y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n sail i'r gwaith

b. y rôl y mae gwaith rheolaeth adeiladu yn ei chwarae o ran rheoli diogelwch datblygiadau o bob math o adeilad o'r cysyniad drwy'r prosesau dylunio, cymeradwyo, adeiladu, arolygu, ardystio, meddiannu a defnyddio'r datblygiad gorffenedig

c. y rôl y gall gwaith rheolaeth adeiladu ei chwarae o ran hybu ac arwain diwylliant o ddiogelwch gan gynnwys dilyn egwyddorion diogelwch bywyd, diogelwch tân a diogelwch strwythurol

d. rôl deddfwriaeth iechyd a diogelwch a'r risgiau a'r rheolaethau cysylltiedig yn yr amgylchedd adeiledig

e. y rhwymedigaeth i roi gwybod am faterion o bryder sy'n dod i'r amlwg i'r awdurdod gorfodi priodol

5.74 Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

a. meini prawf lefel A

b. cymhwyso dulliau cyfathrebu effeithiol, gyda phob parti â buddiant, gan ddefnyddio ystod lawn o ddulliau ac arddulliau cyfathrebu wrth gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu

5.75 Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut y dylai gweithiwr proffesiynol gyflawni ei ddyletswyddau rheoli diogelwch rheolaeth adeiladu yn unol â'r Cod

c. sut y mae arferion rheoli diogelwch adeiladau yn helpu i sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu, ar gyfer pob math o adeilad ac eithrio adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

5.76 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. sut y mae arferion rheoli diogelwch adeiladau yn helpu i sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau adeiladu, ar gyfer pob math o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch

### Rheoli diogelwch – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.77 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:</u>

a. terminoleg sy'n ymwneud â chynnal diogelwch bywyd, diogelwch tân a diogelwch strwythurol a'r ymddygiadau cysylltiedig priodol sy'n gymwys yn yr amgylchedd adeiledig

b. rôl iechyd a diogelwch fel y mae'n gymwys i reolaeth adeiladu mewn perthynas â phob math o adeilad

c. rôl dulliau ac arddulliau cyfathrebu effeithiol a ddefnyddir gan y proffesiwn wrth gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheolaeth adeiladu yn ddiogel

d. diwylliant y diwydiant adeiladu

e. diogelwch personol, diogelwch pobl eraill a systemau gwaith diogel

f. nodi risgiau, methodoleg asesu risgiau a rheoli risgiau ar gyfer pob math o adeilad

g. deddfwriaeth ac ymarfer iechyd a diogelwch, gyda phwyslais ar yr amgylchedd adeiledig

h. Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015

i. nodi, codi pryderon, rhoi gwybod yn effeithiol i bartïon â buddiant, a chofnodi digwyddiadau rheoli diogelwch a nodir yn ystod y prosesau asesu ac arolygu cynlluniau

5.78 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefel A

b. prosesau rheoli diogelwch adeiladau a'r ffordd y mae'r prosesau hyn yn rhyngweithio â'r swyddogaethau rheolaeth adeiladu gan gynnwys asesu cynlluniau ac arolygu

5.79 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut i ddangos arferion rheoli diogelwch effeithiol wrth gyflawni gwaith rheolaeth adeiladu ar gyfer pob math o adeilad ac eithrio adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch, o'r cysyniad hyd at y camau dylunio, cymeradwyo, adeiladu, arolygu, gorfodi, ardystio, meddiannu a phwrpas

c. sut y mae ymddygiadau rheoli diogelwch adeiladau yn cyd-fynd â dilyn y Cod a safonau sefydliadol perthnasol

5.80 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. sut i ddangos arferion rheoli diogelwch effeithiol wrth gyflawni gwaith rheolaeth adeiladu ar gyfer pob math o adeilad gan gynnwys adeiladau ansafonol a/neu adeiladau risg uwch, o'r cysyniad hyd at y camau dylunio, cymeradwyo, adeiladu, arolygu, gorfodi, ardystio, meddiannu a phwrpas

## Moeseg

### Datganiad cymhwysedd cyffredinol ar gyfer moeseg

5.81 Cynnal safonau proffesiynol a moesegol uchel wrth gyflawni'r holl weithgareddau rheolaeth adeiladu

5.82 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:</u>

a. terminoleg sy'n ymwneud â moeseg

b. sut beth yw ymddygiad da ac ymddygiad moesegol

5.83 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefel A

b. sut y mae ymddygiad moesegol yn rhyngweithio â rheolaeth adeiladu

5.84 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A a B

b. y rôl y mae moeseg ac ymddygiadau moesegol yn cyfrannu at y Cod, a’r ffordd y maent yn rhyngweithio â’r Cod, o'u cymhwyso wrth gyflawni'r holl weithgareddau rheolaeth adeiladu

5.85 <u>Trosolwg o gymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. y rôl y mae moeseg ac ymddygiadau moesegol yn cyfrannu at y Cod, a’r ffordd y maent yn rhyngweithio â’r Cod, o'u cymhwyso wrth gyflawni'r holl weithgareddau rheolaeth adeiladu; ar y cyd â'r gallu i sicrhau bod aelodau o'r tîm rheolaeth adeiladu/datblygu yn gweithio mewn modd moesegol bob amser

### Moeseg – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

5.86 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel A – ymwybyddiaeth o'r canlynol:</u>

a. adolygiad o'r derminoleg sy'n ymwneud â moeseg ac ymddygiad moesegol a'r ffordd y mae disgwyl yn ein cymdeithas y bydd pobl yn arfer moeseg ac ymddygiadau moesegol, a'r ffordd y mae cyrff proffesiynol ac eraill yn mesur perfformiad

b. rhwymedigaethau i'r awdurdod rheoleiddio o dan y Cod

5.87 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel B – gwerthfawrogiad o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefel A

b. cymhwyso'r dysgu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r ffordd y mae moeseg yn rhyngweithio â'r swyddogaethau rheolaeth adeiladu, y tu mewn i'r swyddfa a’r tu allan iddi, gan gynnwys asesu cynlluniau ac arolygu

5.88 <u>Meini prawf cymhwysedd lefel C – dealltwriaeth o'r canlynol:</u>

a. meini prawf lefelau A a B

b. sut y caiff moeseg ac ymddygiadau moesegol eu cyflawni o ddydd i ddydd a rhyngweithio proffesiynol â phob aelod o'r tîm datblygu, wyneb

yn wyneb, ar-lein a thrwy gyfryngau electronig eraill a sicrhau cydymffurfedd â'r Cod

5.89 Meini prawf cymhwysedd lefel D – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

a. meini prawf lefelau A, B ac C

b. cymhwyso ymddygiadau moesegol, gan gynnwys ymddygiad pobl eraill a gorfodi ymddygiad moesegol fel sy'n briodol

c. cymhwyso egwyddorion moesegol er mwyn hybu canlyniadau diogel a chymhwyso'r Cod mewn modd sy’n parchu amrywiaeth ac egwyddorion cynhwysiant

# 6. Tabl o ofynion cymhwysedd

Tabl 1: Tabl yn dangos y gofynion o ran cymhwysedd ar gyfer pob dosbarth o arolygydd adeiladu

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r lefelau cymhwysedd disgwyliedig ym mhob un o'r naw maes pwnc cymhwysedd a amlinellir yn Adran 3 o'r Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu ar gyfer pob dosbarth.

| Maes cymhwysedd | Y Gyfraith | Technoleg | Gwasanaethau Adeiladau | Swyddogaethau a Gweithgareddau | Asesu Cynlluniau a Gorfodi | Arolygiadau a Gorfodi | Sgiliau Rheoli a Sgiliau Craidd | Rheoli Diogelwch | Moeseg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arolygydd Adeiladu o dan Hyfforddiant Dosbarth 1 | A-B | A-B | A-B | A-B | A-B | A-B | A-B | A-B | D |
| Arolygydd Adeiladu Dosbarth 2 | C | C | C | C | C | C | C | C | D |
| Arolygydd Adeiladu Dosbarth 3 | D | D | D | D | D | D | C | C | D |
| Arolygydd Adeiladu (Rheolwr Technegol) Dosbarth 4 | C-D | C-D | C-D | C-D | C-D | C-D | D | D | D |

NODER:

Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i unigolion feddu ar lefel uwch o gymhwysedd na'r lefel a ddangosir. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cael lefel uwch. Er enghraifft, byddai Arolygydd Adeiladu (Rheolwr Technegol) dosbarth 4 sy'n rheoli Arolygwyr Adeiladu dosbarth 2 yn unig angen cymhwysedd lefel C ar gyfer llawer o'r cymwyseddau, tra byddai angen cymhwysedd lefel D ar Arolygydd Adeiladu (Rheolwr Technegol) dosbarth 4 sy'n rheoli Arolygwyr Adeiladu dosbarth 3.

Efallai y bydd modd i unigolion ddangos cymhwysedd lefel uwch ar gyfer dosbarth cofrestru penodol, a chaiff hyn ei dderbyn. Os nad yw unigolyn yn gallu cyrraedd y lefelau cymhwysedd sy'n ofynnol gan yr awdurdod rheoleiddio ym mhob un o'r 9 maes cymhwysedd ar gyfer unrhyw ddosbarth cofrestru, mae’n annhebygol o allu cofrestru yn y dosbarth. Efallai y bydd angen iddo gofrestru mewn dosbarth gwahanol, gweithio o dan oruchwyliaeth neu fod â chyfyngiadau ar ei gofrestriad.